



ADDEWID PARTNERIAETH CYFLOGWR

DIOGELWCH EICH SEFYDLIAD
TRWY FUDDSODDI YNG
NGWEITHLU YFORY

BETH YW'R ADDEWID PARTNERIAETH CYFLOGWR?

Eisiau codi proffil eich sefydliad? Recriwtio a chryfhau eich darpar dalent? Sefydlu cysylltiad sy'n fuddiol i bawb gydag un o'r colegau mwyaf blaenllaw yng Nghymru? Yna cofrestrwch ar gyfer ein Haddewid Partneriaeth Cyflogwr.

Fel y darparwr AB mwyaf yng Nghymru gyda champysau ar draws Casnewydd, Torfaen, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chaerffili, rydym yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu'n weithredol a gweithio gyda sefydliadau lleol.

Trwy ein haddewid rydym yn anelu at adeiladu ar ein partneriaethau diwydiant trwy roi cyflogwyr wrth galon yr hyn rydym yn ei wneud ac arddangos llwybrau gyrfa a chyffroi ein myfyrwyr am fyd gwaith.

Nid oes un maint i weddu pawb o ran gweithio gyda ni ac rydym bob amser yn croesawu partneriaethau newydd a ffyrdd newydd o gydweithio er budd pawb.

Bydd yr Addewid Partneriaeth yn rhoi'r canlynol i chi:

- Mynediad i ystod o dalent yn y dyfodol
- Y gallu i gau bylchau sgiliau
- Y cyfle i helpu i siapio'r cwricwlwm
- Cymorth gyda sicrhau interniaethau a phrentisiaethau
- Arddangosiad o gyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol



YR ADDEWID PARTNERIAETH

Mae ymuno â'r Addewid yn **RHAD AC AM DDIM** ac rydym yn croesawu pob cyflogwr, p'un a ydych yn sefydliad mawr, yn fusnes bach neu ganolig neu'n fusnes bach.

Drwy ymuno â'n Haddewid Partneriaeth, rydych yn dangos eich ymrwymiad i gymryd rhan mewn un neu fwy o'r gweithgareddau hyn dros gyfnod o 3 blynedd. Drwy wneud hyn, rydym yn gobeithio annog cyfranogiad parhaus a gweld cyfleoedd yr addewid partneriaeth yn tyfu'n flynyddol gyda'ch sefydliad.

- 1 Mynychu ffeiriau swyddi, prentisiaethau, mewnwelediadau a gyrfaoedd
- 2 Cynnig gwaith, lleoliad gwaith gyda diwydiant, interniaethau, prosiectau byw ac ymweliadau â safleoedd
- 3 Gwneud cyflwyniadau cyflogwyr, darlithoedd gan westai o'r sector, dosbarthiadau meist'r a sesiynau blasu
- 4 Cefnogi gweithdai sgiliau cyflogadwyedd - cyflwyniad ar cv, ceisiadau a chyfweliadau ffug
- 5 Ymwneud â chynllunio a datblygu cwricwlwm
- 6 Ymuno â fforymau a rhwydweithiau cyflogwyr
- 7 Beirniadu cystadlaethau a gwobrau
- 8 Hyrwyddo swyddi, cyfleoedd gwaith a recriwtio myfyrwyr
- 9 Hyfforddi eich gweithlu a DPP staff drwy'r coleg
- 10 Cyflogi Prentisiaid

YR ADDEWID - PAM EI FOD YN BWYSIG?

I Gyflogwyr:

- Ar gyfer busnesau a chyflogwyr, mae'n rhoi mynediad at ystod ehangach o dalent ac arbenigedd, gan ddenu unigolion i'ch diwydiant, cau unrhyw fylchau sgiliau a dod â phersbectif ffres i'ch sefydliad.
- Helpu i hyrwyddo cyfleoedd swyddi, prentisiaethau, interniaethau, lleoliad a phrofiad gwaith.
- Helpu i godi proffil eich cwmni a chynnig cyfleoedd i gyflogwyr ymgysylltu mewn modd cadarnhaol â'u cymuned leol trwy gefnogi cyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol.

I Fyfirwyr:

- Mae'n ehangu eu gwybodaeth ynglŷn â llwybrau gyrfa a swyddi nad oeddent wedi eu hystyried, gwneud cysylltiadau rhwng y pynciau maent yn eu hastudio yn y coleg ac ym myd gwaith.
- Mae'n rhoi mewnwelediad i ddisgwyliadau cyflogwyr, sut mae busnes yn gweithio, y gwahanol sectorau diwydiant a'r sgiliau sydd eu hangen i lwyddo yn y farchnad lafur.
- Codi eu dyheadau ar gyfer y dyfodol a gwella canlyniadau myfyrwyr yn cynnwys gwella eu symudedd cymdeithasol.

I Coleg Gwent:

- Rhoi gwell dealltwriaeth i ni o dueddiadau'r farchnad lafur, y farchnad swyddi a gofynion sgiliau cyflogwyr, sy'n newid.
- Cefnogi datblygiad a diweddarau darpariaeth cwricwlwm, gan ei gwneud yn berthnasol i ddiwydiant a'r byd gwaith, gan gefnogi blaenoriaethau bylchau sgiliau rhanbarthol.
- Gyrru canlyniadau datblygiad gwell o ganlyniad i dwf cymhelliant myfyrwyr.



EIN GWELEDIGAETH - GWEITHLE MEDRUS AC ECONOMI RANBARTHOL GREF

Mae gweithlu medrus, gwybodus ac ysgogol yn elfen bwysig ar gyfer adeiladu mantais gystadleuol gynaliadwy a chryf mewn busnes. Bydd Coleg Gwent yn Goleg sy'n darparu ar gyfer cyflogwyr, a chyfochr â nhw. Bydd gweithio gyda chyflogwyr yn cyfoethogi'r addysg rydym yn ei darparu, a'n galluogi ni i ymateb i anghenion yr economi leol a rhanbarthol.



Cofrestrwch eich diddordeb

www.coleggwent.ac.uk/pledge